Fy Nghyf: REC26/STUDID
Eich Cyf:

16 Ebrill 2026

At Riant/Rieni/ Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid:
ENW
CYFEIRIAD

Annwyl Riant/Rieni/Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid

**Derbyn i Ysgol Gynradd: Medi 2026**

Rwyf yn ysgrifennu i'ch hysbysu o ganlyniad eich cais i ysgol Gymunedol. Mae'n dda gennyf ddweud fy mod yn gallu cynnig lle i'ch plentyn yn **YSGOL** i gychwyn ym Medi 2026.

Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y cynnig hwn, er mwyn i ni ei roi i blentyn arall os nad oes ei angen arnoch chi mwyach.

I dderbyn neu wrthod y cynnig, mewngofnodwch i'r Porthol Derbyn Ar-lein, a chlicio'r ymateb perthnasol. Neu gallwch ymateb drwy e-bost (derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk). Rhaid derbyn eich ymateb erbyn **30 Ebrill 2026**.

Mae lle eich plentyn wedi'i gynnig ar sail yr wybodaeth a roddwyd gennych yn eich cais, a'r prosesau a wnaed gan y Cyngor i wirio'r wybodaeth hon. Yn unol â pholisi derbyn cymeradwy'r Cyngor, gellir tynnu unrhyw le a gymeradwyir yn ôl yn yr amgylchiadau canlynol:

- os canfyddir nad yw amgylchiadau'r plentyn bellach yn bodloni'r meini prawf derbyn a oedd yn sail i gynnig y lle ysgol
- os canfyddir y gwnaed y cais o dan amgylchiadau twyllodrus, neu
- os gwnaed cynnig y lle ysgol ar gam.

Os bydd eich plentyn yn newid cyfeiriad, neu'n bodloni meini prawf gordanysgrifio nag y rhai a ystyriwyd yn eich cais, **rhaid** i chi hysbysu'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn ddi-oed trwy e-bostio derbyniadaucynradd@caerdydd.gov.uk.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â chi maes o law gyda manylion ynghylch y trefniadau derbyn i **YSGOL.**

Bydd unrhyw gynnig o le Dosbarth Derbyn mewn ysgol gynradd gymunedol yn cael ei dynnu yn ôl gan y Cyngor os nad yw'r plentyn yn mynychu'r ysgol o fewn 20 diwrnod ysgol wedi dechrau'r tymor ysgol yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed.

Mae cyngor teithio i'r ysgol ar gael ar dudalen we Cadw Caerdydd i Symud https://keepingcardiffmoving.co.uk/

Bydd Cyngor Caerdydd yn cynnig teithio i'r ysgol am ddim yn unig os bydd ysgol agosaf sydd ar gael wedi cael ei chymhwyso ar ei gyfer, ac mae'n fwy na 2 milltir i gerdded o gartref y plentyn. Ni fydd plentyn yn gymwys i dderbyn teithio i'r ysgol am ddim, beth bynnag, pa mor bell yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol, os na chafodd lle yn yr ysgol agosaf sydd ar gael ei gais, neu os bydd y rhiant/plentyn wedi gwrthod cynnig lle yn eu hysgol agosaf sydd ar gael.

Mae gwybodaeth ynghylch Cludiant Ysgol ar gael ar wefan y Cyngor ar:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Trafnidiaeth-Ysgol/Pages/default.aspx

Yn gywir,
Tîm Derbyn i Ysgolion
**Addysg a Dysgu Gydol Oes Cyngor Dinas Caerdydd**